Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 18 Ebrill 2008

Teitl: £1 miliwn i brifysgolion i ddefnyddio technoleg newydd

Bydd prifysgolion yng Nghymru yn cael cyfran o £1 miliwn i helpu iddynt gynnwys technoleg newydd er mwyn cynyddu profiad y myfyriwr.

Mae'r cyllid, a ddarperir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), er mwyn i brifysgolion weithredu strategaeth ddeng mlynedd newydd ar gyfer 'dysgu sy'n cael ei wella gan dechnoleg'.

Nod y strategaeth, a luniwyd gan CCAUC gyda chymorth cynrychiolwyr o brifysgolion a sefydliadau sy'n gysylltiedig ag addysg uwch, yw prif ffrydio'r defnydd o dechnoleg mewn arferion dysgu ac addysgu. Bydd hyn yn arwain at gyrsiau mwy hyblyg a hygyrch i fodloni anghenion corff myfyrwyr sy'n fwyfwy amrywiol.

Yn ogystal â chefnogi sefydliadau sy'n arloesol o ran defnyddio technoleg yn eu haddysgu, bydd y strategaeth yn cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg ac yn annog cydweithio a rhannu arfer da yng Nghymru ac yn ehangach. Dylai hefyd sicrhau bod Cymru ar y blaen ym maes dysgu sy'n cael ei wella gan dechnoleg a gwella cystadleugarwch - ac atyniad - sefydliadau Cymreig.

Dywedodd yr Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Dylai'r strategaeth hon helpu prifysgolion i gyflymu wrth weithredu llawer o ddatblygiadau newydd sy'n gysylltiedig â gwella addysgu trwy ddefnyddio technoleg. Gan fod y

strategaeth yn cynnwys y 10 mlynedd nesaf, rhaid i ni, a'n prifysgolion, ddal i fyny â datblygiadau sy'n amhosib i ragweld mewn technoleg newydd. Dyma pam y byddwn yn adolygu'r strategaeth yn rheolaidd i wneud yn siŵr ei bod yn parhau yn berthnasol i addysg uwch yng Nghymru. "

Dywedodd Cadeirydd CCAUC sydd ar fin gadael, yr Athro Syr Roger Williams: "Trwy ein hymchwil a'n hymgynghori â phrifysgolion, mae'r enghreifftiau niferus o arloesedd mewn dysgu sy'n cael ei wella gan dechnoleg a geir mewn sefydliadau, wedi creu argraff arnon ni. Maen nhw nawr yn ymgymryd â'r her o wneud arloesedd o'r fath yn gyffredin, yn hytrach nag yn eithriad, ac rydyn ni'n siŵr bod hyn yn rhywbeth y bydd y corff myfyrwyr, sy'n gynyddol wybodus mewn defnyddio technoleg, yn ei groesawu."

Diwedd

Nodiadau:

Cysylltiadau ar gyfer cael rhagor o wybodaeth
CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Y strategaeth

Datblygwyd y strategaeth hon dros y deunaw mis diwethaf gan CCAUC a'i is-grŵp e-ddysgu, sy'n cael ei gadeirio gan yr Athro Robert Pearce o Brifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan. Mae hefyd wedi cael ei llywio gan y sefydliadau, y cyrff a'r unigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y strategaeth ac ar y datganiad o sefyllfa e-ddysgu mewn addysg uwch yng Nghymru.

Yn hytrach na chyfeirio at e-ddysgu, mae'r strategaeth yn pwysleisio gwella dysgu ac addysgu sy'n cael ei hwyluso a'i gefnogi gan ddefnyddio technoleg

gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Rydym yn cyfeirio at hyn fel ‘dysgu sy’n cael ei wella gan dechnoleg’.

Mae enghreifftiau o ddysgu sy’n cael ei wella gan dechnoleg a ddefnyddir neu sy’n cael eu hystyried mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Cyfleusterau llyfrgell ar-lein, gan gynnwys catalogau ar-lein, cronfeydd data, offer darganfod, e-gyfnodolion ac e-lyfrau
- Adnoddau digidol, e.e. EDINA Digimap, BIODIDAC
- Deunyddiau cwrs electronig, e.e. e-lyfrau, defnyddio Amgylcheddau Dysgu Rhithwir
- CD-ROM ac efelychiadau ac amgylcheddau rhyngweithiol ar y we
- Profiadau dysgu ar-lein eraill yn lle gweithgareddau fel gwaith grŵp, teithiau maes neu deithiau preswyl
- Cyflwyno, asesu ac adborth electronig
- Gweinyddu rhaglenni yn electronig
- Cymorth ar-lein, e.e. medrau astudio, gyrfaoedd
- Cynllunio Datblygiad Personol E-seiliedig neu e-bortffolios
- Cynadledda Cyfrifiadurol Cyfryngol Anghydamserol
- Wiciau a Blogiau
- Cynadledda clywedol cydamserol
- Gweledu, podledu a ffrydiau fideo sesiynau addysgu

Mae’r strategaeth yn rhoi nifer o themâu mewn grwpiau o dan y penawdau canlynol:

- Gwella Dysgu, Addysgu ac Asesu a Phrosesau Craidd;
- Profiad Dysgu Gwell i’r Myfyriwr;
- Mwy o hyblygrwydd a hygyrchedd o ran darpariaeth;
- Cydweithio a Rhannu Arfer Cyfredol a Da yn effeithiol; ac
- Ymglymiad sefydliadol.

Mae hefyd yn cynnwys nifer o ddangosyddion llwyddiant tymor byr a thymor hir o dan yr amcanion hyn.

Mae'r strategaeth ar gael ar wefan CCAUC yn [http://194.81.48.132/Publications/circulars_5137.htm.]

Mae'r **cyllid** yn cynnwys £1 miliwn er mwyn cefnogi ac annog sefydliadau i fanteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan dechnoleg a bodloni amcanion y strategaeth. Bydd CCAUC hefyd yn rhoi cyllid i'r Academi Addysg Uwch i gefnogi ymgynghorwyr gael gweithio gyda sefydliadau ar wella dysgu trwy ddefnyddio technoleg.

Corff sy'n cael ei Noddi gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC) sy'n gyfrifol am weinyddu cyllid y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trefnu ei fod ar gael i gefnogi:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a gynhelir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon ar gyfer athrawon ysgol ac yn comisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â chyfrifoldebau cyllid, mae CCAUC yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion cyllid, uchelgeisiau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.